OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 537 (Cy. 162)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Abercannaid i Gylchfan Dowlais, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Ebrill 2016* |
| *Yn dod i rym* | *30 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (yr A4060) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Ebrill 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Abercannaid i Gylchfan Dowlais, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2016.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 30 Ebrill 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 25 Ebrill 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru

# YR ATODLEN

**1.** Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Abercannaid hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach.

**2.** Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Leo.

**3.** Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Mountain Hare.

**4.** Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Mountain Hare hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Dowlais.